

# Glas

Bwletin misol

Llên  
natur  
Cymdeithas Edward Llwyd

Rhif 183

Mai 2023

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Llun Llïon Griffiths  
Dinorwig  
1 Ebrill 2023 - Mwy ar dudalen 2 a 5

Cyhoeddir **Glas** gan Gymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy [cymuned.llennatur@gmail.com](mailto:cymuned.llennatur@gmail.com)





**CLAWR Glas 183: Llun Llion Griffiths**

Tai y gweithwyr o Ynys Môn ydi'r rhain? Sharon Williams

Tebyg y buo fy hen-hen daid, Owen Williams o Lanfairpwll, yn lletya yn un o'r rhain. Alun Huws Williams

*Such an evocative image and captured by so many over the years. Very thought provoking to imagine what life was like when the quarry workers village was in its hey day.*

Keith Williams

Bum yn ddigon hyf i ofyn i Llion ym mha ffordd mae o'n 'doctora' lluniau fel hyn ar ôl mynd adref...

"Hyfryd fel arfer. I ba raddau mae'r llun wedi cael ei 'ddoctora' Llion - neu ddim? Dim byd o'i le yn hynny wrth gwrs (yn enw Celf) ond ar y Grŵp hwn rydyn ni'n gofyn i ffotograffwyr gofnodi os ydy nhw wedi gwyro o 'weledigaeth cyntaf' y camera mewn unrhyw ffordd."

**Atebodd Llion fel hyn:**

"Dyma [lun amrwd](#), [RAW Image Format], fyddaf yn saethu ffeiliau amrwd trwy'r camera pob tro. Mae hynny yn rhoi rhyddid i mi rhoi steil fy hun i fewn i'r llun, ond mae'n bwysig gwneud yn siwr fod yna gysylltiad cryf gyda realiti pob tro. Mae yna lawer o luniau AI [Deallusrwydd Artiffisial] o gwmpas y dyddiau yma, rhywbeth na'i byth ei ddefnyddio. Fydda'i yn hoffi'r newid y cysgodion yn dywyllach neu oleuach na be mae'r llygad yn ei weld fel arfer er mwyn creu teimlad o ddirgelwch o fewn fy lluniau".

**Mwy o luniau o Dinorwig ar dudalen 5**

 Cysylltwch gyda ni:  
[cymuned.llennatur@gmail.com](mailto:cymuned.llennatur@gmail.com)

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

**Rhan 1 : ADAR Y TIR**

Ceir nifer o gofnodion am wahanol rhywogaethau o adar yn nyddiaduron William Bulkeley, Brynddu. Er yr holl gofnodion, prin iawn yw'r rhywogaethau sydd yn cael eu henwi. Yn aml iawn fe gofnoda Bulkeley enw'r teulu yn hytrach nag enw penodol. Ni ddeuthum ar draws cofnod o rai o'n hadar mwyaf cyffredin heddiw, er enghraifft, dryw, jac-do na drudwen. Ysbeidiol yw'r cofnodion ac yn aml ceir gyfeiriad at y tywydd neu hela ynghlwm â'r cofnod. Mae'n amlwg hefyd bod William Bulkeley yn cadw rhai rhywogaethau er mwyn eu magu ar gyfer eu bwyta neu er mwyn cyflenwad o wyau. Ceir cyfeiriadau at "ducks" a "geese" yn aml yn y dyddiaduron. Yn ei chyfrol "Portraits of an Island -

*Eighteenth Century Anglesey" (1987) nodda Helen Ramage "Turkeys which had been found domesticated in Mexico as early as 1578 and introduced into Europe soon afterwards are rarely mentioned in Anglesey diaries and accounts."* Ceir un cofnod o dwrciod yn y dyddiaduron ond diwedd anffodus fu iddynt;



Llun Nia Evans (twyni Aberffro, Môn)

3d.July (1736)

■ "The Wind E. & N.E. a very cold rainy morning till 10. or 11. there fell such heavy cold rains 2 or 3 hours before Day, that it killed all my young Turkeys that were 3 months old,"

Fel y nodwyd ceir cyfeiriad at y tywydd yn aml ynghlwm â'r cofnodion ac mae natur William Bulkeley o sylwi ar effaith y tywydd i'w weld yn y cofnodion. Yn aml mae'n nodi sut mae'r tywydd yn effeithio ar ymddygiad neu symudiad adar. Mae'r cofnodi hefyd yn dangos pa mor ymwybodol o ffenomena mudo rhai rhywogaethau oedd Bulkeley tra bod un cofnod penodol am y gog yn adlewyrchu cred yr oes ynglŷn ag ymfudo. Deuthum ar draws ugain o gofnodion am wenoliaid. Mae Bulkeley yn nodi sawl tro yn y dyddiaduron y dyddiad y gwelodd gwennol cynta'r flwyddyn;

28th March (1749) ■ "..... I saw To Day a Swallow in Cae'r Penrhyn and I do not remember ever to have seen any so early before"

5<sup>th</sup>.April (1752) ■ *“The Wind N. W. calm, Sun shiny, fair and warm all day , notwithstanding I have not seen neither Cuccow nor Swallow this year.”*

27<sup>th</sup>.April (1758) ■ *“.....To Day I first hear Saw the Swallow this year.”*

Mae hefyd yn nodi cofnodion o wenoliaid yn “hwyr” yn y tymor.

30<sup>th</sup>.Sept (1748) ■ *“The Wind S. blowing high and stormy and very cold all day, yet sun shiny & dry. Saw a swallow This Day also*

i6<sup>th</sup>.Oct (1759) ■ *“..... I Saw to day a – Swallow not frequently seen this Month:.....”*

Mae’n amlwg ei fod yn gallu gwahaniaethu rhwng y gwahanol rhywogaethau o wenoliaid fel y dengys y ddau gofnod yma. Cyfeirio at wennol y bondo “Marten” *Delichon urbica* [martin erbyn heddiw, martin yw’r bele] mae’r cofnod cyntaf tra bo’r ail yn cyfeirio at wennol y glennydd *Riparia riparia*.

18<sup>th</sup>.April (1739) ■ *“..... To Day I saw the first Swallow this year; saw likewise a Marten, which bird all other years appeared usually a week or 9 days after the Swallows.”*

ii<sup>th</sup>.April (1751) ■ *“ To Day I saw the first swallows, but they were of the smallest, brown kind.”*

Yn union fel roedd gweld gwennol gynta’r flwyddyn, roedd clywed y gog yn ddiwyddiad a haeddai gael ei gofnodi. Ceir nifer o sylwadau sydd yn cofnodi gweld gwennol a chlywed y gog gyntaf ar yr un diwrnod.

16<sup>th</sup>.April (1743 ) ■ *“..... To Day I first heard the Cuccow, & saw the first Swallow this year.”*

Gwennol		Cog	
1734	7 Ebrill		
1736	2 Ebrill		
1739	<b>18 Ebrill</b>	1739	20 Ebrill
1740	16 Ebrill		
1741		1741	22 Ebrill
1742	<b>17 Ebrill</b>	1742	<b>17 Ebrill</b>
1743	<b>16 Ebrill</b>	1743	<b>16 Ebrill</b>
1748	<b>24 Ebrill</b>	1748	<b>23 Ebrill</b>
1749	28 Mawrth	1749	18 Ebrill
1750	18 Ebrill	1750	12 Ebrill
1751		1751	16 Ebrill
1752	7 Ebrill (yn Nulyn)	1752	18 Ebrill
1756		1756	4 Mai
1757	19 Ebrill		
1758	<b>27 Ebrill</b>	1758	<b>28 Ebrill</b>
		1759	24 Ebrill
1760	15 Ebrill	1760	22 Ebrill
	Dyddiadau cofnodi gwennol cynta’r flwyddyn.		Dyddiadau clywed y gog am y tro cyntaf yn y flwyddyn.

Ond,o’r holl gofnodion am y gog hwn yw’r mwyaf diddorol;

20<sup>th</sup>.Nov (1741) ■ *“..... To Day My Cuckow dyed that had been fed in the house since July last; however as they have a notion of those birds revieing again in the spring, she was put in a basket of feathers & hung up in the Kitchen near the Chimney.”*

Heblaw y cofnodion am yr wennol a’r gog ceir gyfeiriadau at adar tir eraill hefyd. Fel y soniwyd roedd William Bulkeley yn sylwi ar effaith y tywydd ar y byd o’i gwmpas ac roedd effaith y tywydd ar adar yn cael sylw ganddo;

29<sup>th</sup>.Dec (1737) *“The Wind S. dark, cloudy weather, cold & raw, but make no rain. the Small birds flock in abundance, foreshewing some hard weather, shot 8 buntings at one shott.”*

Mae mwyalchod a bronfreithod yn dal ei sylw hefyd ar newid tywydd yn y gwanwyn, hynny o bosibl gan fod eu cân yn glywadwy adeg yna o’r flwyddyn?

26<sup>th</sup>.February (1748) *“ The Wind W. pretty calm & very temperate, cloudy & small mizling rain frequently which was very refreshing: The Black Birds And – Thrushes soon perceived the change of weather.”*

6<sup>th</sup>. March (1753) *“The Wind S. calm, sun shiny, fair and warm all day as if it was a day in June: Black-birds & Thrushes were singing even after Sun set:”*

Deuthum ar draws dri chofnod at socan eira, y tri chofnod i gyd yn ystod mis Ebrill pan roedd yr adar yn mudo yn ôl i’w hardaloedd magu.

20<sup>th</sup>.April (1737 ) ■ *“The Wind E.S.E. very calm & warm, with a fine dewy rain in the morning. my people all this week hitherto — sowing Barley at Cnewchdernog . saw this morning a flight of Fieldfares in the lower Garden, 20 or more in number, which I take notice of, because it is the received oppinion that they are Birds of Passage, and never stay here in breeding time”*

April 14<sup>th</sup> “(1739).” ■ *The Wind N. blowing fresh, and very cold and scorching – my people all this week at the same work of plowing for and sowing Barley, tho the ground I now plow is both wet & cold, & should long — rains. soon ensue, would be worth but little, but haveing a great of unfinished, & haveing done all my dry ground, I must keep to it to see if I can finish by May. saw a great flight of Fieldfares to day.”*

13<sup>th</sup>. April (1751) ■ *The Wind N. W. very calm, Sun shiny fair and warm all day – My people have been these 4 last days plowing for Barley: The Birds of Passage have not left our Countrey yet;*

*I saw some Fieldfares this morning: pd. i4d. for a side of Lamb and the head"*

Dim ond un cofnod am adar ysglyfaethus y deuthum ar ei draws. Wedi dweud hynny mae'n gofnod hynod ddiddorol am ymddygiad adar ysglyfaethus ac yn adlewyrchiad o'r oes oedd ohoni.

24<sup>th</sup>.June 1736. "..... — A very remarkable thing happened to day which for its odness & unnatureallness deserves to be remembred. Dick my Gardiner a day or 2 ago observed a Male Sparrow-Hawk to pursue a bird thro one of the Crevices into the Barn, there, he & another got, surprized & took him, clipped his wings & cut his tallons, & brought him to the house, & I put him in a Cage where he remained a Day or 2 without offering to Eat any thing, and being loath to keep the poor creature to starve & pine away, I brought him into the Orchard, & laid him down Just under the tree where he had a Nest & 2 young ones that were pretty big, there I left him, & returning afterwards about 4 or 5 hours to the same place, I found that the Female Hawk had killed him, feathered, & pulled him to pieces, & fed the young ones with his flesh, nothing remaining on ye ground but a heap of feathers, a great many of which lay about the Nest, being carried there with the flesh"

Ychydig dros wythnos yn ddiweddarach mae'n cofnodi:

3d.July (1736) "The Wind E. & N.E. a very cold rainy morning till 10. or 11. there fell such heavy cold rains 2 or 3 hours before Day,.....killed the young Hawks in the Nest that were ready to fly. & filled all the high Ways with Water",

sef yr union ddiwrnod y lladdwyd twrcïod William Bulkeley gan y glaw trwm ac oer.

Er nad oes nifer fawr o gofnodion am adar mae'r rhai sydd yn y dyddiadur yn ddiddorol ac yn dadlennu llawer am William Bulkeley a'r byd o'i gwmpas.

## Teyrnged i Aled Jones

Ganwyd **Aled** yn 1931 yn Dwyrdd, Penrhyndeudraeth, mab i Dafydd Jones a Gwerfyl Ellis. Fe'i magwyd yno yn ystod cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Roedd o'n meddwl y byd o "Pendryn" ac yn llawn straeon am yr hen ddyddiau a'r cymeriadau lliwgar oedd yn byw yno yn ystod ei blentyndod.

Mynychodd (gan gyrraedd yno yn ddyddiol ar y tren) Ysgol y Bermo, lle disgleiriodd yn ei astudiaethau. Bu ambell athro yn Y Bermo yn ddyllanwad mawr arno ac roedd yn sôn amdany'n nhw a'i ddyddiau ysgol yn aml. Yn ystod ei gyfnod yn Y Bermo dechreuodd ei ddiddordeb mawr mewn seryddiaeth.

Gadawodd Ysgol y Bermo yn 1948 ac aeth i goleg technegol Rugby i astudio Peirianeg. Yn fuan wedyn cafodd swydd yn yr arsyllfa yn Greenwich, Llundain -

"The Royal Observatory Greenwich" yn swyddogol - fel "Junior Scientific Officer". Tra oedd yno, roedd yn gyfrifol am y gwaith mathemategol manwl oedd ei angen i raddnodi ("calibrate") y telesgop mawr yn yr arsyllfa yn hollol gywir... yn ogystal â threulio nosweithiau wedyn yn edrych ar y sêr a gwneud nodiadau technegol am yr hyn a welai.


Daeth yn ôl i Gymru i gael y radd roedd ei hangen i fynd ymlaen mewn seryddiaeth, ac aeth i'r brifysgol ym Mangor i astudio mathemateg. Efallai mai yn ôl i Lundain y byddai wedi mynd wedyn oni bai iddo gyfarfod Gwawr yn y coleg a phenderfynu aros yng Nghymru! Daethant i fyw i Ruddlan a'r plant yn cyrraedd yn fuan – Dafydd Einion yn 1962 a Ffion Eleri yn 1964.

Ar ôl graddio, gwnaeth ei hyfforddiant dysgu ac yn 1957 cafodd swydd fel pennaeth adran mathemateg yn ysgol Gymraeg newydd Y Rhyll (ar y pryd)...sef Ysgol Glan Clwyd. Bu yn Glan Clwyd - yn Y Rhyll i ddechrau ac wedyn, o 1969 ymlaen, yn Llanelwy - am 30 mlynedd, tan ei ymddeoliad.

Dyna pryd y dechreuodd gyfnod arall bywiog yn ei fywyd pan ddechreuodd o a Gwawr fynd ar deithiau cerdded Cymdeithas Edward Llwyd ar draws y Gogledd. Cerddai a sgysiai â lluo o bobl oedd â diddordebau tebyg iddo a mwynhaodd pob munud. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n arwain sawl taith ei hun yn ei fro enedigol yn ardal Penrhyndeudraeth, Llanfrothen a Llandecwyn (ac os oedd o fewn tafliad carreg i Benrhyndeudraeth byddai pawb yn cael eu hatgoffa - rhag ofn eu bod nhw wedi anghofio - mai "Pendryn" oedd yn 'gywir'.

Am flynyddoedd bu'n cyfrannu colofn fisol "Gair Neu Ddau" i bapur bro "Y Glannau", oedd yn seiliedig ar ei ddiddordeb mawr mewn geiriau a'u tarddiad...

**I ddarllen y gweddill [cliciwch ar y ddolen hon](#)**




# DINORWIG



Coeden ar sbwyl llechi  
DK ■ 24/7/2019



Llion Griffiths ■  
18/03/2023



Bwch gafr ■ Caz Wager  
10/2/2022



Distawrwydd ■ Mary Jones  
19/01/2019



Corn galw ■ Gillian Brown  
12/12/2020

"Nyth Bwch Gafr"  
DK ■ 24/7/2019



"Cusan"  
DK ■ 22/06/2022



"Y Ceiliog"  
DK ■ 22/06/2022

## Hel cofnodion - lafáu clustog

### Mynydd Moel




Lafa clustog tybed?  
Mynydd Moel (Cadair Idris) heddiw (ddechrau Ebrill 2023) wrth lan Llyn Aran. Iwan Williams

### Gwddw Llanddwyn

... ond ar Wddw Llanddwyn wrth sowdl Craig y Rhwyd mae enghraifft wych o "pillow lava" wedi dod i'r fei ac wrth fynd

rownd y gornel ar Draeth Penrhos gwythien o siasper [maen iaspis] eto yng ngwaelod Craig y Rhwyd. Hyfryd eu gweld am y tro cynta fel petae wedi'r tywod fynd. Einir Wyn



Difrodwyd peth o greigiau lliwgar Llanddwyn gan ambell adeiladwr lleol cyn bod sôn am gadwraeth na pharchu henebion o unrhyw fath. Mae cerrig 'ceiliog a iâr' (coping) Fron Heulog ar draws i hen gartref John Ifor (Ty'n Llan neu'r Waros) yn esiampl hardd a lliwgar ond heddiw yn hollol annerbyniol... Tecwyn Owen

Gwn hefyd fod defnydd o'r gro yn cael ei ddefnyddio i "chwpio" tai, waliau a chilbostiau. Fydd rhaid imi sbio tro nesa pan fydda i'n y Stryd. Mae dipyn ar ôl ar wal lôn Tyn Llidiart a Masgesdir - Maes-y-ceirchdir. Be am wal fynwant yr Eglwys? EW

Fyddai wrth fy modd gweld lliwiau y creigiau yma... Eleri Fôn Roberts




Gro Lan Môr oedda nhw'n ddefnyddio i chwpio tai hefyd. Mae hynny i weld ar y Capal cregin mân yn y cymysgiad. Toedd o ddim yn

ddeunydd delfrydol gormod o halen ynddo. Cerrig lliwgar lan môr yn gwneud copi [coping] walia bach hefyd. John Pierce Jones

### Moel Hebog

Ie, mae golwg debyg iawn [ar lafa Mynydd Moel] i'r lafa clustog a welais ar y ffordd i fyny Moel Hebog ar ochr Beddgelert. Martin Coleman



## Clogwyni Llechdafad neu Pencaer (Strumble Head)

Strumble Head heddiw. *Pillow lava* o'r Ordovician 400 miliwn o flynyddoedd yn ôl, pan oedd Cymru ar Capricorn [Trofan yr Afr] ac r'oedd *mass extinction* yn mynd ymlaen. Caryl Gibbs

### Rhobell Fawr

Llosgfynydd Rhobell Fawr yn 508 Ma [Mega annum] (Oedran Tremadoc) ddogwyddodd gyntaf, yna symudodd y ffrwydiadau i'r gogledd-ddwyrain trwy Cader Idris, Aran ac yna Arenig (sydd yr un oed a'r 'pillow lavas' yn Strumble Head, Sir Benfro) gan orffen yn Crafnant. Cadwyni o llosgfynyddoedd (Island Arc volcanoes) fel Japan a'r Aleutians [Ynysoedd Aleutia]. Ray Humphries

## Mawrth gwlypaf ers 1980

Tywydd mis Mawrth 2023, Maes Gwynedd, Waunfawr (diolch i ddata Gethin Pritchard). Y mis Mawrth gwlypaf ers 1980. Dyma ddywedodd Kington (*Climate and Weather, Collins*) am Mawrth 1980:

'...mild Northwest Britain – March: cyclonic. \*27 March: severe storm. Cyclonic situation, deep depression (below 988mb.) moved north-east across England, severe to storm force south-easterly gales over the North Sea, Alexander Kielland platform disaster, former oil rig, capsized, 123 workers killed'

Yn ôl y graffiau (heb eu cyhoeddi) fuodd 'na 5 cyfnod (ddim 100% yn union gydamserol ond yn agos) o dymheredd uwch, gwynt cryfach o'r Gog. Ddwyrain, yn chwythu o'r SSW, glaw mwy a phwysedd uchel (1008 hPa).

...a chafwyd eira ar y 7fed o Fawrth:

Llanfairfechan 6:30 yb a mae hi'n wyn acw. 07/03/2023.

Eirlys Edwards-Behi

## Goleuni'r Gogledd

24 Mawrth 2023 mae'n debyg, GOLEUNI'R GOGLEDD. [Wales Online](#)

Yr haul yn deffro! [Darllenwch fwy yma.](#)

## Gwybedog Brith

Gareth Wynne-Williams  
29 Ebrill 2023  
Ardal Capel Curig



## Cyfflog y ffyring Gwyddelig

Oes yna rhywun yn gwybod beth oedd arwyddocad y CYFFLOG i'r gwyddelod gan i ddelwedd ohono godi ar y ffyring Gwyddelig?

...ac ail-godi ar y darn 'chweigian' (sori, hanner can ceiniog!) Gwyddelig hefyd

"The bird on the farthing is a woodcock in flight. Despite its diminutive size the woodcock was both an important game bird and an occasional addition to the table of the poorest agricultural labourer".

Dyna roeddwn wedi ei gofnodi wrth restru enwau adar fel rhyw atodiad hanesyddol i arwyddocad yr adar mewn celf a diwylliant.


Dewi Lewis



Wedi derbyn hwn gan ffrind Madeleine Hogan: "This is all I can find out about the subject. In the early 1920s the young Irish government set up a committee under the chairmanship of W.B. Yeats to submit designs for Irish coinage. It was agreed that a harp would be on the obverse side of most coins and all the lettering would be in Gaelic. The committee decided that no image of a living or historical or religious figure would be used on the reverse side; Civil War wounds were still fresh and Protestant religious sensibilities had to be respected. And so, because agriculture was the basis of Ireland's economy, countryside motifs were chosen. Seven artists, three Irishmen, an American, one Englishman, a Swede and an Italian were given images of animals and birds and invited to submit designs for the coins. The work of the Englishman, Percy Metcalfe, was chosen. Percy's woodcock design was used for the farthing coin which was introduced into the Irish Free State in 1928 and in 1970, when decimalisation was introduced in Ireland, Percy Metcalfe's woodcock design was copied onto the new 50p piece.

I don't think the woodcock has any special significance, but in Irish mythology birds were often seen as omens and there were countless beliefs, proverbs and curses associated with them. With regard to the woodcock, it was believed they holidayed on the moon."

Mary Jones



## Craflwyn ddoe HEDDIW MEWN HANES

7/4/1962 ■ Craflwyn

**Ffynhonnell:** Dyddiadur gŵr o Fanceinion a ymgartrefodd yn Craflwyn, Beddgelert (trwy law yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, YG.)

**Nodiadau:** 7 April 1962 Lousy rainy day. Honeymoon couple left – no good. Other old couple – no bleeding good either. Two people in – two vans [David Nemrow]

Tybed os mai Hinksman oedd y cyfenw? Del D'Aubray

Hinksman oedd enw y person (dynes os dwi'n cofio'n iawn) oedd yn byw yng Nghraflwyn cyn awdur y dyddiaduron. Cefais y pleser amheus o gyfarfod y dyn ariangar hwn [Nemrow] blynyddoedd yn ôl. Perchennog Craflwyn tan 1994 oedd David Nemrow o Fanceinion. Ar ôl ymdeol yn y 50au a gwerthu ei gwmni tacsis mi brynodd Craflwyn a'i redeg fel llety gwyliau. Y stori leol oedd ei fod wedi gwneud ei arian trwy ennill y pwls, ond methais ddarganfod tystiolaeth am hyn yn ei ddyddiaduron. Bu farw yn ei 90au wrth i'r gwerthiant i'r YG mynd yn ei flaen.

Ymadawodd ei weddw Kathleen ar ddiwrnod y gwerthiant gan adael bron i bopeth yn y tŷ, gan gynnwys dyddiaduron ei gwr.

Richard Gwyn Neal

Cafodd y dyddiaduron hyn eu gwrthod gan Archifdy Gwynedd, yn ddealladwy mae'n rhaid dweud; doedd dim cysylltiadau lleol go iawn yn perthyn iddyn nhw. Ond wrth gwrs mae gan bawb ei stori. Ac roedd gan Nemrow ddigon i ddweud am y tywydd - gan gynnwys gaeaf mawr 1963 - gan iddo deithio'n aml ymhob tywydd i Fanceinion (i gasglu rhent yn ôl pob golwg!!). Mae'n rhaid i mi ddweud, taswn i'n cael gafael ar ddyddiaduron Adolph Hitler mi fuasai ei sylwadau yntau am y tywydd yn cael lle yn Llên Natur. Y Ddynoliaeth - ei emau a'i wymon yn gymysg! (ffordd o ddweud cofiwch - dim o'i le efo gwymon!!!)

5 July 1963 ■ Raining hard most of the day. Askin shearing. No one in [hy. dim carafanau]

Difyr darllen y pytiau cryno. 'Askin' oedd Tom Askin. Fo oedd yn ffermio Craflwyn, cyn i'r lle fynd yn rhemp efo Rhododendrons - sôn hefyd am eirin ac afalau yn y berllan.

Roedd hwn wedi diflannu erbyn i'r YG gael y lle (wedi'i ail blannu rŵan) ac roedd o yna ers amser Mrs Hinksman (1940au?).

Carafanau ydi 'Vans'. Roedd yna faes pebyll, *tourers, statics, 3 bunkhouse, 4 'bwthyn'* yn y stablau a gwely a brecwast yn y tŷ. Y cwbl wedi mynd a'i ben iddo erbyn iddo fo werthu. RGN

'Dwi'n cofio Mrs Hinksman...Vera Hinksman. Dynes garedig iawn ond eccentric'. Del D'Aubray

Dyna'r tro cyntaf i Llên Natur (DB) glywed yr enw Nemrow. Pawb a'i stori ynte - roeddwn i'n gwybod am ei gysylltiadau ariannol â Manceinion. Dyma **ddolen** i'w ddyddiadur - disgrifio caledni gaeaf 1963 yn fanwl a graffig iawn (yn ei ffordd ddihafal ei hun!). Mae yna rhyw gynhesrwydd ysbeidiol yn amlygu ei hun weithiau dwi'n synhwyro.

Am Nemrow dywedodd Linda Thomas 'Pwr dab'. Ia dyna'r unig agwedd ynte? Fasa 'pathetig' yn rhy greulon i ddisgrifio'r fath gradur. Ia, trist!



# Gweision Neidr a Mursennod yng Nghymru

Un o bosteri Cymdeithas Edward Llwyd



Picellwr praff (ceiliog) *Libellula depressa*



Picellwr praff (iar) *Libellula depressa*



Gwael ddu *Sympetrum danae*



Mursen las asur *Coenagrion puella*



Mursen fawr goch *Pyrrhosoma nymphula*



Gwas neidr blewog *Brachytron pratense*  
Efallai bod hwn yn fwy cyffredin nag y tybir. Edrychwch amdano.



Ymerawdwr *Anax imperator*



Mursen fach goch *Ceriagrion tenellum*



Morwyn dywyll *Calopteryx virgo*



Mursen werdd *Lestes sponsa*



Gwas neidr eurdorhog *Cordulegaster boltonii*  
Gwas neidr mawr sydd i'w weld yn crwydro'r bryniau yn aml ymhell o ddŵr.



Picellwr pedwar nod *Libellula quadrimaculata*



Cysylltwch gyda ni: [cymuned.11ennatur@gmail.com](mailto:cymuned.11ennatur@gmail.com)

Mae pob cofnod yn cael ei gofnodi fel ag y mae, mewn unrhyw iaith neu dafodiaith.

Poster: Ifor Williams. Lluniau: Allan Brandon, Duncan Brown, Debbie Evans, Eifion Griffith, Rhys Jones ac Alun Williams. (Nid yw'r delweddau i raddfa)

